**<u>Cofnodion o Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun 10 Mai 2021 arlein, trwy zoom am 8.00 o'r gloch</u>**

***<u>Minutes of Llangeitho Community Council Annual General Meeting held on Monday, 10 April 2021, online through Zoom at 8.00pm</u>***

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**<u>Presennol/*Present*</u>**
Cyng Daniel Thomas (Gadair/*Chair*), Gwenfair Owen, Gwilym Evans, Eirian Jones, Myrddin James, Paul Rooke, John Evans a Cyng Dafydd Morse o 8.50 o'r gloch ymlaen a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

**<u>Ymddiheuriadau/*Apologies*</u> –** Cyng/*Cllr* Beryl Evans, Emyr Jones a Cyng/*Cllr* Rhian Turner

**<u>Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*</u> –** Neb / *No one*

**<u>Adroddiad yr Heddlu / *Police Report*</u>**
Derbyniwyd adroddiad yr heddlu drwy galwad ffôn yn ystod y cyfarfod dros Zoom.

**<u>Cyfrion Blynyddol / *Annual Accounts*</u>**
Cylchredwyd copiau o'r cyfrifon drwy e-bost a derbyniwyd yn gywir ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans.

**<u>Ethol Cadeirydd / *Election of Chairperson*</u>**
Ail enwebwyd Cyng Daniel Thomas (Ward Llangeitho) i'r gadair ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones. Derbyniwyd y swydd a diolchgwyd i bawb am ei cefnogaeth.

**<u>Ethol Is-Gadeirydd / *Election of Vice Chairperson*</u>**
Cynnigwyd John Evans (Ward Llwynpiod) ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones. Derbyniwyd y swydd.

**<u>Ethol Archwiliwyr Mewnol / *Appointment of Internal Auditor*</u>**
Cynnigwyd Mr Gareth Jones ar gynnig Cyng Eirian Jones ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen.

**<u>Cyflog a Chostau'r clerc / *Clerk Costs & Wages*</u>**
Ni roddwyd y Clerc unrhyw gostau i fewn am y flwyddyn. Cynnigodd y Clerc i beidio a derbyn codiad cyflog am y flwyddyn sydd wedi bod ac am y flwyddyn sydd i ddod, ond i gadw ar £1,340.04. Cytunwyd ar hyn ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans.

Terfynnir y cyfarfod Blynyddol a pharhawyd efo'r cyfarfod misol.

**<u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting*</u>**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen.

**<u>Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes*</u>**

- Crwbin Quarries yn cadarnhau fod ganddynt bach o baclog o waith i gwblhau cyn dechrau ar y cylchfan yn Llangeitho. Clerc i gysylltu efo nhw i weld pryd fyddant yn dechrau. Gareth Lewis wedi cael profedigaeth agos yn ei deulu yn ddiweddar ac yn cadarnhau fydd o'n ymweld ac asesu'r goeden ywen yn fuan.
- Yn dilyn arolwg o'r gwaith brys oedd angen ei wneud i drwsio'r bont rhwng Parcrhydderch a Capel Betws Leucu, derbyniwyd cadarnhad drwy law'r Cyng Rhodri Evans mae crac yn y ffordd yw'r broblem a fod y bont yn hollol saff.
- Car oedd wedi'u adael o flaen Capel Gwynfil wedi'u symud.
- Y Goeden Nadolig oedd yn y parc chwarae wedi'u symud.

**<u>Gohebiaeth/*Correspondence*</u>**

- Dim i'w adrodd.

**Cyfrifon/*Accounts***

- Cyflog y clerc (mis Ebrill) £111.67
- Zoom £14.39 (24.04.2021)

Cytunwyd ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones i dalu'r uchod.

**Cyngor Sir Ceredigion *County Council***

- Cais Cynllunio S Owen & Miss E Rowbotham, Land at Tynant, Tynreithyn, Tregaron – Proposed rural enterprise dwelling to include installation of package treatment plant. Cytunwyd i gefnogi'r cais yma gan bwysleisio fod hi'n bwysig fod y daear a'r ty yn cael ei gadw'n un a chefnogi'r cais gan fod yr ymgeiswyr yn gymraeg ac yn lleol i'r Gymuned.

**Un Llais Cymru/*One Voice Wales***

Dim i'w adrodd.

**Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business***

- Cynnigwyd bod y Clerc yn ysgrifennu llythyr i Cyngor Sir Ceredigion gan gopio Cynulliad ac yn y blaen i fewn yn y copi i ddatgan ein consern am nifer o bwyntiau ynglyn a chynllunio yn bennaf.
- Gofynnir a oes modd gau'r llwybrau cerdded/cyhoeddus yn ystod tymor yr wyna.
- Asesiadau ar y bontydd lleol wedi'u wneud.
- Jetter wedi bod yn ardal Penuwch a Llangeitho.

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date & location of next meeting***

Cynhelir y cyfarfod misol nesaf ar nos Lun 7fed o Fehefin am 8 o'r gloch trwy Zoom.